**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2007 Rhif 6

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL 1977

## Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd Lleol 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *30 Ionawr 2007* |
| *Yn dod i rym* | *1 Chwefror 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16BB(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn:

## RHAN 1

### CYFFREDINOL

**Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn, yw Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd Lleol 2007, a roddir i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru a deuant i rym ar 1 Chwefror 2007.

(2) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG" *("NHS Business Services Authority")* yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) a sefydlwyd gan Orchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2005(**2**);

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) O.S. 2005/2414.

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" *("Local Health Board")* onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yw'r Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y clinig;

ystyr "claf" *("patient"),* ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yw person y mae clinig yn darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol iddo o dan adran 16CA(2) o Ddeddf 1977(**1**);

ystyr "clinig" *("clinic")* yw clinig a sefydlwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol at y prif ddiben o ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol o dan adran 16CA(2) o Ddeddf 1977 (gwasanaethau deintyddol sylfaenol);

ystyr "cyfarpar deintyddol" *("dental appliance")* yw dant gosod neu bont ac at ddibenion y diffiniad hwn, mae dant gosod yn cynnwys argaead;

ystyr "cyfarpar orthodontig" *("orthodontic appliance")* yw dyfais a ddefnyddir yn y geg i symud y dannedd neu atal y dannedd rhag symud er mwyn cywiro neu rwystro camachludiad;

ystyr "datganiad gwasanaeth" *("service statement")* yw datganiad a lunnir yn unol â chyfarwyddyd 3;

ystyr "Deddf 1977" *("the 1977 Act")* yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

ystyr "Deddf Deintyddion" *("Dentists Act")* yw Deddf Deintyddion 1984(**2**);

ystyr "ffi'r GIG" *("NHS Charge")* yw'r ffi a godir ar glaf am ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Rheoliadau Ffioedd y GIG;

ystyr "gwasanaethau gorfodol" *("mandatory services")* yw'r gwasanaethau a ddisgrifir yn rheoliad 14 o'r Rheoliadau Contractau GDS;

ystyr "gwasanaethau gorfodol uwch" *("advanced mandatory services")* yw unrhyw wasanaeth deintyddol sylfaenol a fyddai'n dod o fewn y gwasanaethau a ddisgrifir yn rheoliad 14 o'r Rheoliadau Contractau GDS, ond yn rhinwedd y lefel uchel o gyfleusterau, profiad neu arbenigedd y mae eu hangen o ran claf penodol, a ddarperir fel gwasanaeth atgyfeirio;

ystyr "gwasanaethau ychwanegol" *("additional services")* yw un neu fwy o—

(a) gwasanaethau gorfodol uwch;

(b) gwasanaethau iechyd cyhoeddus deintyddol;

(c) gwasanaethau cartref;

(ch) gwasanaethau orthodontig; a

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 16CA yn Neddf 1977 gan adran 170 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (c.43) ("Deddf 2003").

(**2**) 1984 (p.24) a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/3926 a 2005/2011.

(d) gwasanaethau tawelyddu;

ystyr "mangre'r clinig" *("clinic premises")* yw'r fangre neu'r clinig symudol a bennir yn y datganiad gwasanaeth;

ystyr "oriau clinig arferol" *("normal clinic hours")* yw'r adegau pan ddarperir gwasanaethau fel arfer gan y clinig i gleifion a gall fod yn wahanol ar gyfer gwasanaethau gwahanol;

ystyr "plentyn" *("child")* yw person nad yw wedi cyrraedd 16 oed;

ystyr "proffesiynolyn gofal deintyddol" *("dental care professional")* yw person y cynhwysir ei enw yn y gofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol a sefydlwyd o dan adran 36B o Ddeddf Deintyddion(**1**) (cofrestr proffesiynolion gofal deintyddol);

mae i "proffesiynolyn gofal iechyd" yr ystyr a roddir i "*health care professional*" yn adran 28M o Ddeddf 1977(**2**) (personau sy'n gymwys i ymrwymo mewn contractau GDS);

ystyr "Rheoliadau Contractau GDS" (*"GDS Contracts Regulations"*) yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**3**);

"rhestr cyflawnwyr deintyddol" *("dental performers list")* yw rhestr o ymarferwyr deintyddol a lunnir yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 28X o Ddeddf 1977(**4**) (personau sy'n cyflawni gwasanaethau sylfaenol meddygol a deintyddol);

ystyr "rhagnodydd" *("prescriber")* yw ymarferydd deintyddol a gymerir ymlaen neu a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol; ac

ystyr "Rheoliadau Ffioedd y GIG" *("NHS Charges Regulations")* yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**5**).

**Gwasanaethau deintyddol sylfaenol sydd i'w darparu o dan adran 16CA(2), 16CB neu 28C o Ddeddf 1977 yn unig**

**2.** Ni chaiff unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol heblaw o dan adran

(**1**) Mewnosodwyd adran 36B yn y Ddeddf Deintyddion gan erthygl 29 o Orchymyn Deddf Deintyddion 1984 (Diwygio) 2005 (O.S. 2005/2011) ("Gorchymyn y Ddeddf Deintyddion").

(**2**) Mewnosodwyd Adran 28M yn Neddf 1977 gan adran 172(1) o Ddeddf 2003.

(**3**) O.S. 2006/490 (Cy. 59).

(**4**) Mewnosodwyd Adran 28X yn Neddf 1977 gan adran 179(1) o Ddeddf 2003.

(**5**) O.S. 2006/491 (Cy. 60).

16CA(2), 16CB(**1**) (iechyd cyhoeddus deintyddol) neu 28C(**2**) (gwasanaethau personol meddygol neu ddeintyddol) o Ddeddf 1977.

**Datganiad gwasanaeth**

**3.**—(1) Pan fydd Bwrdd Iechyd Lleol yn dymuno darparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn unol ag adran 16CA(2) o Ddeddf 1977 (p'un ai o fewn ei ardal neu'r tu allan iddi), rhaid iddo sefydlu un neu fwy o glinigau at y diben hwn a rhaid iddo mewn cysylltiad â phob clinig baratoi datganiad gwasanaeth a fydd yn gosod—

(a) y gwasanaethau gorfodol neu ychwanegol sydd i'w darparu;

(b) cyfeiriad pob mangre a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaethau hynny neu yn achos darparu gwasanaethau o glinig symudol, y ffaith honno;

(c) i bwy y mae'r clinig i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys, pan fydd yn briodol, cyfeirio at ardal y byddai person sy'n preswylio ynddi â hawl i dderbyn gwasanaethau gan y clinig;

(ch) y weithdrefn (os oes un) y caiff person (ac eithrio yn achos darparu gwasanaethau mewn carcharau a gwasanaethau iechyd cyhoeddus deintyddol) wneud cais am wasanaethau i'r person ei hunan neu ar ran person sydd angen y gwasanaethau hynny;

(d) yr amgylchiadau a'r weithdrefn (os oes rhai) y gellir gwrthod neu roi terfyn ar wasanaethau gorfodol neu wasanaethau ychwanegol i berson; ac

(dd) y manylion a'r gofynion pellach hynny o ran gweinyddu a rhedeg y clinig y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau—

(a) bod y clinig yn gweithredu yn unol â'r gofynion a'r gweithdrefnau a bennir yn y datganiad gwasanaeth;

(b) bod y datganiad gwasanaeth yn cael ei ddiwygio, yn ôl yr angen, i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r materion a bennir ym mharagraff (1); ac

(c) bod y clinig yn codi ac yn casglu Ffi'r GIG yn unol â Rheoliadau Ffioedd y GIG.

(3) Caiff clinig, yn benodol, gynnwys —

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 16CB yn Neddf 1977 gan adran 171 o Ddeddf 2003.

(**2**) Mewnosodwyd adran 28C yn Neddf 1977 gan adran 21(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46).

(a) un neu fwy o gyflogeion y Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) un neu fwy o broffesiynolion gofal iechyd sy'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan gontract am wasanaethau; neu

(c) cyfuniad o is-baragraffau (a) a (b).

# RHAN 2

## DARPARU GWASANAETHAU

### Gwasanaethau i gleifion

**4.** Pan fydd clinig yn darparu gwasanaethau gorfodol neu wasanaethau ychwanegol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig—

(a) yn darparu'r gwasanaethau hynny, a'r gwasanaethau eraill hynny a bennir yn y datganiad gwasanaeth, i gleifion y clinig, yn ystod oriau clinig arferol i fodloni anghenion rhesymol y cleifion hynny; a

(b) yn darparu manylion y trefniadau ar gyfer gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau clinig arferol i'w gleifion a sut i gysylltu â'r gwasanaethau hynny.

### Mangre, cyfleusterau a chyfarpar

**5.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod mangre, cyfleusterau a chyfarpar y clinig a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol —

(a) yn addas ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau hynny; a

(b) yn ddigonol i fodloni anghenion rhesymol cleifion y clinig.

# RHAN 3

## CLEIFION

### Dewis y claf o ymarferydd

**6.**—(1) Pan fydd clinig yn darparu gwasanaethau gorfodol neu wasanaethau ychwanegol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau (ac eithrio yn achos darparu gwasanaethau mewn carchar neu wasanaethau iechyd cyhoeddus deintyddol) bod y clinig—

(a) yn hysbysu'r claf (neu, yn achos plentyn neu oedolyn analluog, y person a wnaeth y cais ar eu rhan) o hawl y claf, yn ddarostyngedig i baragraff (2), i fynegi ei hoff ddewis o gyflawnwydd penodol i dderbyn gwasanaethau oddi wrtho; a

*(b)* yn cofnodi'n ysgrifenedig unrhyw hoff ddewis o'r fath a fynegir gan neu ar ran y claf.

(2) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn ymdrechu i gydymffurfio ag unrhyw hoff ddewis rhesymol a fynegir o dan baragraff (1) ond ni fydd yn rhaid i'r clinig wneud hynny—

(a) os bydd gan y cyflawnydd sy'n hoff ddewis sail resymol dros wrthod darparu gwasanaethau i'r claf; neu

(b) os nad yw'r cyflawnydd sy'n hoff ddewis yn rheolaidd yn cyflawni'r gwasanaethau sy'n ofynnol gan y claf.

# RHAN 4

## RHAGNODI AC ATGYFEIRIADAU

### Rhagnodi - yn gyffredinol

**7.**—(1) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod clinig yn cydymffurfio â'r gofynion yng nghyfarwyddiadau 8 i 10 o ran unrhyw ffurflen bresgripsiwn am gyffuriau, meddyginiaethau neu gyfarpar rhestredig a ddyroddir gan ragnodydd.

(2) Mae'r cyfeiriad at ffurflen bresgripsiwn yn y cyfarwyddyd hwn, cyfarwyddyd 9(2) a chyfarwyddyd 17 yn gyfeiriad at y ffurflen a gyflenwir gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddibenion cyfarwyddyd 9(1).

### Cyflenwi cyffuriau

**8.**—(1) Caiff rhagnodydd gyflenwi i glaf y cyfryw gyffuriau, meddyginiaethau neu gyfarpar rhestredig sy'n ofynnol er mwyn eu defnyddio ar unwaith cyn dyroddi presgripsiwn ar gyfer y cyfryw gyffuriau meddyginiaethau neu gyfarpar yn unol â chyfarwyddyd 9.

(2) Caiff rhagnodydd roi'n bersonol i glaf unrhyw gyffur neu feddyginiaeth sy'n ofynnol i drin y claf hwnnw.

### Dyroddi ffurflenni presgripsiwn

**9.**—(1) Rhaid i ragnodydd orchymyn cyffuriau, meddyginiaethau neu gyfarpar rhestredig (heblaw rhai a gyflenwir yn unol â chyfarwyddyd 8) fel y bo'u hangen ar gyfer trin unrhyw glaf y mae'n darparu gwasanaethau iddo drwy ddyroddi i'r claf hwnnw ffurflen bresgripsiwn.

(2) Rhaid i’r ffurflen bresgripsiwn—

(a) wedi cael ei llofnodi gan y rhagnodydd; a

(b) gael ei dyroddi ar wahân i bob claf y mae'r clinig yn darparu gwasanaethau iddo.

**Rhagnodi gormodol**

**10.** Ni chaiff rhagnodydd ragnodi cyffuriau, meddyginiaethau neu gyfarpar y mae eu cost neu eu nifer, o ran unrhyw glaf, oherwydd natur y cyffur, y feddyginiaeth neu'r cyfarpar o dan sylw, yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol yn angenrheidiol ar gyfer trin y claf hwnnw'n briodol.

**Atgyfeirio**

**11.**—(1) Pan na fydd clinig yn darparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol i glaf, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig, os bydd y claf yn cytuno, yn atgyfeirio'r claf yn unol â pharagraff (2) at gontractiwr amgen, ysbyty neu ddarparydd gwasanaeth perthnasol arall o dan Ran 1 o Ddeddf 1977.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn darparu—

(a) i'r claf a atgyfeirir ato, hysbysiad atgyfeirio ar ffurflen a roddir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol; a

(b) i'r contractiwr amgen, yr ysbyty neu;r darparydd gwasanaeth perthnasol arall—

(i) copi o'r hysbysiad atgyfeirio, a

(ii) datganiad o'r swm a dalwyd i'r clinig, neu sy'n ddyledus i'w dalu i'r clinig, gan y claf o dan Reoliadau Ffioedd y GIG.

**Ymholiadau o ran atgyfeiriadau**

**12.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn rhoi ateb digonol i unrhyw ymholiadau p'un ai rhai llafar neu ysgrifenedig oddi wrth Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ynghylch—

(a) atgyfeiriad gan neu ar ran y clinig o unrhyw glaf ar gyfer unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir o dan Ddeddf 1977; neu

(b) yr ystyriaethau y bu'r clinig yn eu pwyso a'u mesur i wneud atgyfeiriadau o'r fath neu ddarparu iddynt gael eu gwneud ar ei ran.

(2) Ni fydd rheidrwydd ar y clinig i ateb unrhyw ymholiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) oni chaiff ei wneud gan ymarferydd deintyddol sydd wedi cymhwyso'n briodol(**1**), a benodwyd gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i gynorthwyo ac mae'r person, pan ofynnir iddo, yn cyflwyno tystiolaeth

---

(**1**) Diffinnir y term 'dental practitioner' yn adran 128 o Ddeddf 1977 yn berson sydd wedi'i gofrestru yn y gofrestr ddeintyddion dan y Ddeddf Deintyddion.

ysgrifenedig ei fod wedi'i awdurdodi gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i wneud ymholiad o'r fath ar ei ran.

# RHAN 5

## PERSONAU SY'N CYFLAWNI GWASANAETHAU

### Ymarferwyr deintyddol

**13.** Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau na fydd unrhyw ymarferydd deintyddol yn cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol mewn cysylltiad â chlinig—

(a) oni chafodd ei gynnwys yn y rhestr cyflawnwyr deintyddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru; a

(b) ar yr amod nad yw ei enw ar y rhestr honno'n ddarostyngedig i ataliad.

### Proffesiynolion gofal deintyddol

**14.**—(1) Cyn dwyn i rym y rheoliadau cyntaf o dan adran 36A(2) o'r Ddeddf Deintyddion(**1**) (proffesiynau sy'n gyflenwol i ddeintyddiaeth), rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau na fydd unrhyw—

(a) hylenydd deintyddol; na

(b) therapydd deintyddol,

yn cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol mewn cysylltiad â chlinig onis cofrestrwyd yn y gofrestr briodol a sefydlwyd yn unol â Rheoliadau Ategolwyr 1986(**2**).

(2) Pan ddaw y rheoliadau cyntaf o dan adran 36A(2) o Ddeddf Deintyddion i rym, rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau na fydd unrhyw broffesiynolyn gofal deintyddol yn cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol mewn cysylltiad â chlinig—

(a) oni chafodd ei gynnwys yn y gofrestr proffesiynolion gofal deintyddol a sefydlwyd o dan adran 36B o'r Ddeddf Deintyddion(**3**); a

(b) ar yr amod nad yw ei gofrestriad yn y gofrestr honno'n ddarostyngedig i ataliad.

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 36A yn rhagolygol yn y Ddeddf Deintyddion gan erthygl 29 o Orchymyn y Ddeddf Deintyddion.
(**2**) O.S. 1986/887; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1999/3460 a 2002/1671.
(**3**) Mewnosodir adran 36B yn rhagolygol yn y Ddeddf Deintyddion gan erthygl 29 o Orchymyn Deddf Deintyddion

### Amodau ar gyfer cyflogaeth a chymryd ymlaen

**15.**—(1) Cym cyflogi person neu gymryd person ymlaen i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gymryd gofal rhesymol i'w fodloni ei hun bod y person o dan sylw yn briodol gymwysedig ac yn gymwys i gyflawni'r dyletswyddau y cyflogwir ef ar eu cyfer neu y cymerir ef ymlaen ar eu cyfer.

(2) Wrth ystyried cymhwysedd ac addasrwydd unrhyw berson at ddibenion paragraff (1), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi sylw, yn benodol, i—

(a) cymhwyster academaidd a galwedigaethol y person hwnnw;

(b) ei addysg a'i hyfforddiant; ac

(c) ei gyflogaeth neu ei brofiad gwaith blaenorol.

### Hyfforddiant

**16.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer unrhyw ymarferydd deintyddol neu broffesiynolyn gofal deintyddol—

(a) sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol mewn clinig; neu

(b) sy'n gyflogedig neu sydd wedi'i gymryd ymlaen i gynorthwyo i gyflawni'r gwasanaethau hynny,

at ddibenion cynnal a diweddaru ei sgiliau a'i wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau y mae'n eu cyflawni neu'n cynorthwyo i'w cyflawni.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau ei fod yn rhoi cyfleoedd rhesymol i bob cyflogai yn y clinig i ddilyn hyfforddiant priodol er mwyn cynnal cymhwysedd y cyflogai hwnnw.

(3) Ym mharagraff (1), mae cyfeiriad at broffesiynolyn gofal iechyd yn cynnwys, hyd nes y daw adran 36B o'r Ddeddf Deintyddion i rym, therapyddion deintyddion a hylenwyr deintyddol sy'n cael eu cynnwys ar gofrestr y cyfryw broffesiynau a sefydlwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Llofnodi dogfennau

**17.**—(1) Yn ychwanegol at unrhyw ofynion eraill sy'n ymwneud â'r dogfennau a bennir ym mharagraff (2), p'un ai yn y Cyfarwyddiadau hyn neu fel arall, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn trefnu bod y dogfennau'n cynnwys—

(a) enw a phroffesiwn clinigol y proffesiynolyn a lofnododd y ddogfen; a

(b) enw'r Bwrdd Iechyd Lleol y llofnodir ar ei ran.

(2) Mae'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yn cynnwys—

(a) ffurflenni sy'n ofynnol eu llenwi yn unol â'r Cyfarwyddiadau hyn, pan fydd y ffurflenni hynny yn gofyn am lofnod;

(b) ffurflenni presgripsiwn; ac

(c) unrhyw ddogfennau clinigol eraill.

# RHAN 6

## GWYBODAETH, COFNODION, TAFLENNI A RHODDION

**Gwybodaeth i'r cleifion**

**18.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn arddangos mewn lle amlwg wybodaeth ynghylch Ffioedd y GIG a godir ar gleifion am ddarparu gwasanaethau yn unol â Rheoliadau Ffioedd y GIG.

**Gwybodaeth o ran gwasanaethau a thriniaethau**

**19.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig, o fewn dau fis o'r dyddiad—

(a) ar ôl iddo gwblhau cwrs o driniaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau gorfodol neu ychwanegol;

(b) ar ôl iddo gwblhau asesiad achos o ran cwrs o driniaeth orthodontig nad yw'n arwain at gwrs o driniaeth;

(c) ar ôl iddo ddarparu cyfarpar orthodontig yn dilyn asesiad achos sy'n ymwneud â thriniaeth orthdontig;

(ch) ar ôl iddo gwblhau cwrs o driniaeth sy'n ymwneud â thriniaeth orthodontig;

(d) y terfynir cwrs o driniaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau gorfodol neu wasanaethau ychwanegol neu gwrs o driniaeth orthodontig; neu

(dd) o ran cyrsiau o driniaeth nad ydynt yn dod o fewn is-baragraff (ch) neu (d), na ellir cwblhau'r driniaeth o fewn cyfnod rhesymol,

yn anfon at Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, ar ffurf a roddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2).

(2) Mae'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yn cynnwys—

(a) manylion am y claf y mae'r clinig yn darparu gwasanaethau iddo;

(b) manylion o'r gwasanaethau a ddarperir (gan gynnwys unrhyw cyfarpar a ddarperir) i'r claf hwnnw;

(c) manylion o unrhyw Ffi'r GIG sy'n daladwy ac a dalwyd gan y claf hwnnw; a

(ch) yn achos claf sy'n esempt rhag Ffioedd y GIG ac os na chafodd yr wybodaeth honno ei chyflwyno'n electronig, y ffurflen ddatganiad ysgrifenedig a nodyn tystiolaeth yn cefnogi'r datganiad hwnnw.

**Cofnodion cleifion**

**20.**—(1) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn cadw cofnodion llawn, cywir a chyfredol ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a roddir i gleifion ynghyd â'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3).

(2) Pan fydd clinig yn darparu gwasanaethau gorfodol neu ychwanegol, caniateir cadw cofnodion am y cleifion ar ffurf electronig.

(3) Dyma'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

(a) y ffurflen ddatganiad ysgrifenedig o ran esemptiad o dan baragraff 1(1) o Atodlen 12ZA i Ddeddf 1977(**1**) wedi'i gwneud a'i llenwi'n briodol yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 79 o Ddeddf 1977 a pharagraff 7(a) o Atodlen 12ZA iddi;

(b) y nodyn tystiolaeth sy'n cefnogi'r datganiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a); ac

(c) y datganiad ynghylch unrhyw ddyfeisiau a wnaed at ddewis y cwsmer a ddarperir gan unrhyw berson yn sgil rheoliad 15 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(**2**) (gweithdrefnau ar gyfer dyfeisiau at ddewis y cwsmer) o ran gwasanaethau a ddarperir.

**Cyfrinachedd data personol**

**21.** Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod gan y clinig berson sy'n gyfrifol am arferion a gweithdrefnau ynghylch cyfrinachedd data personol a gedwir gan y clinig.

**Taflen wybodaeth i'r claf**

**22.** Pan fydd clinig yn darparu gwasanaethau gorfodol, rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod dogfen ar gael o ran y clinig hwnnw (a elwir yn y

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 12ZA yn Neddf 1977 gan adran 183 o Ddeddf 2003.
(**2**) O.S. 2002/618.

cyfarwyddyd hwn yn daflen wybodaeth i'r claf) a fydd yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn yr Atodlen ac—

(a) sy'n cael ei hadolygu o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis ac yn cael ei diwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei chywirdeb; a

(b) y trefnir ei bod ar gael (gan gynnwys unrhyw ddiweddaru dilynol), i gleifion y clinig ac i ddarpar gleifion.

**Rhoddion**

**23.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn cadw cofrestr o roddion a roddir i unrhyw un o'r personau a bennir ym mharagraff (2) gan neu ar ran—

(a) claf;

(b) perthynas i'r claf; neu

(c) unrhyw berson sy'n darparu neu'n dymuno darparu gwasanaethau i'r clinig,

ac mae eu gwerth unigol, yn ei farn resymol, yn fwy na £100.00.

(2) Dyma'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) —

(a) y clinig;

(b) unrhyw berson a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddibenion y clinig;

(c) unrhyw ymarferydd deintyddol a gymerir ymlaen gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddibenion y clinig;

(ch) unrhyw ŵr neu wraig neu bartner sifil i berson a bennir yn is-baragraffau (b) neu (c); neu

(d) unrhyw berson y mae gan y berthynas rhyngddo a pherson a bennir yn is-baragraff (b) neu (c) nodweddion o'r berthynas sydd rhwng gŵr a gwraig neu bartneriaid sifil.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys –

(a) os oes seiliau rhesymol dros gredu nad yw'r rhodd yn gysylltiedig â gwasanaethau a ddarperir neu sydd i'w darparu gan y clinig;

(b) nad yw'r clinig yn ymwybodol o'r rhodd; neu

(c) nad yw'r clinig yn ymwybodol fod y rhoddwr yn dymuno darparu gwasanaethau i'r clinig.

(4) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig yn cymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn cael ei hysbysu o'r rhoddion sy'n dod o fewn paragraff (1) ac a roddir i'r personau a bennir ym mharagraff (2)(b) i (d).

(5) Rhaid i'r gofrestr y cyfeirir ati ym mharagraff (1) gynnwys yr wybodaeth ganlynol—

(a) enw'r rhoddwr;

(b) mewn achos pan fo'r rhoddwr yn un o'r cleifion, rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol y claf neu, os nad yw'r rhif yn hysbys, ei gyfeiriad;

(c) yn unrhyw arall achos, cyfeiriad y rhoddwr;

(ch) natur y rhodd;

(d) amcangyfrif o werth y rhodd; a

(dd) enw'r person neu'r personau a dderbyniodd y rhodd.

# RHAN 7

## FFIOEDD A CHODI FFIOEDD

### Ffioedd a chodi ffioedd

**24.**—(1) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau na fydd y clinig, nac unrhyw berson sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol ar gyfer y clinig, o ran y clinig neu'r person, neu drwy unrhyw berson arall, yn gofyn am nac yn derbyn ffi neu dâl arall, er ei les ei hun neu er lles rhywun arall oddi wrth unrhyw glaf yn y clinig, am—

(a) darparu unrhyw driniaeth o dan adran 16CA(2) o Ddeddf 1977; neu

(b) unrhyw bresgripsiwn am unrhyw gyffur, meddyginiaeth neu gyfarpar,

ac eithrio i'r graddau bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawl i godi ffi am unrhyw driniaeth neu bresgripsiwn o'r fath yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu oddi tano.

(2) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig ac unrhyw berson arall sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol ar gyfer y clinig yn rhoi cyfrif am y swm ac yn ei dalu i'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn y dull y mae'n gofyn, o unrhyw ffioedd a gasglwyd oddi wrth y claf yn unol â Rheoliadau Ffioedd y GIG.

### Tystiolaeth o esemptiad rhag ffioedd

**25.** Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y clinig—

(a) yn gofyn, o ran person sy'n 18 oed neu drosodd sy'n gwneud datganiad ynglŷn ag esemptiad o dan baragraff 1(1) o Atodlen 12ZA i Ddeddf 1977, am dystiolaeth yn cefnogi'r datganiad hwnnw; a

(b) yn gwneud nodyn o'r math o dystiolaeth a gyflwynir neu, mewn achos pan na chyflwynir tystiolaeth, bod nodyn o'r ffaith honno yn cael ei wneud.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad 30 Ionawr 2007

D Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

# ATODLEN 1 Cyfarwyddyd 22

## GWYBODAETH I'W CHYNNWYS MEWN TAFLEN WYBODAETH I'R CLEIFION

Rhaid i daflen wybodaeth i gleifion gynnwys—

1. Enw'r Bwrdd Iechyd Lleol.

2. P'un a yw'r clinig yn ymroi i addysgu neu hyfforddi personau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau deintyddol.

3. Pan fydd gwasanaethau, yn unol â'r datganiad gwasanaeth, i'w darparu yn unig ar gyfer—

(a) personau sy'n preswylio mewn ardal benodol, yr ardal (drwy gyfeirio at ddiagram braslun, cynllun neu god post) y mae person yn preswylio ynddi â hawl i dderbyn gwasanaethau gan y clinig;

(b) grŵp penodol o bersonau, y gwasanaethau penodol a disgrifiad o'r grŵp o bersonau y mae'r cyfryw wasanaethau i'w darparu iddynt.

4. Rhif ffôn a ffacs y clinig a chyfeiriad ei wefan (os oes un).

5. P'un a oes gan fangre'r clinig fynediad addas ar gyfer cleifion anabl ac, os nad oes, y trefniadau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyfryw gleifion.

6. Sut y mae claf i ofyn am wasanaethau.

7. Hawl cleifion i fynegi hoff ddewis o ymarferydd yn unol â chyfarwyddyd 6 a'r dull i fynegi'r dewis hwnnw.

8. Y gwasanaethau sydd ar gael i gleifion.

9. Dyddiau ac oriau y mae mangre'r clinig ar agor.

10. Y trefniadau ar gyfer gwasanaethau ar y dyddiau ac yn ystod yr oriau pan nad yw'r clinig ar agor (pu'n a ddarperir hwy gan y clinig ai peidio) a sut y gall claf gael gafael ar y gwasanaethau hynny.

11. Rhif ffôn Galw Iechyd Cymru a manylion ar-lein Galw Iechyd Cymru.

12. Sut y gall cleifion wneud cwyn neu sylw ar ddarpariaeth y gwasanaethau.

13. Hawliau a chyfrifoldebau'r claf, gan gynnwys cadw apwyntiadau.

**Formatted:** Bullets and Numbering

**Formatted:** Bullets and Numbering

**Formatted:** Bullets and Numbering

~~14.~~ Y camau y gellir eu cymryd os bydd claf yn dreisgar neu'n sarhaus i unrhyw aelod o staff y Bwrdd Iechyd Lleol neu bersonau eraill sy'n bresennol ym mangre'r clinig neu yn y fan honno lle y darperir triniaeth gan y clinig.

~~15.~~ Manylion am y rhai sydd â mynediad at wybodaeth am y cleifion (gan gynnwys gwybodaeth y gellir dirnad oddi wrthi pwy yw unigolyn) a hawl y claf bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei datgelu.

~~16.~~ Y ffaith y gellir cael gwybod manylion am wasanaethau deintyddol sylfaenol eraill yn yr ardal gan y Bwrdd Iechyd Lleol.